WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o fodel newydd ar gyfer darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**


Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1084A2019-20

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn rhinwedd eu swyddi unigol, neu o ran unrhyw drydydd parti.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan Adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod Adran 45 yn cyflwyno'r arfer o ran ymdrin â cheisiadau sy'n ddisgwyliedig gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau yn ymwneud â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru at swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Gareth Jones ac Ian Phillips o dan arweiniad Non Jenkins.

# Cynnwys

Wrth ddarparu'r model newydd o ofal cymdeithasol a gweithredu’n unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, mae gan y Cyngor sawl enghraifft gadarnhaol o'r ffordd y mae wedi ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy, yn enwedig o ran atal a chyfranogiad.

Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod bod mwy i'w wneud i wreiddio pob un o'r pum ffordd o weithio'n gyson a gallai wella ei waith integreiddio o fewn y Cyngor a chyda phartneriaid allanol.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Rhan un: Canfyddiadau'r archwiliad 8

Wrth ddatblygu ei dimau seiliedig ar ardaloedd, mae'r Cyngor mewn sefyllfa well i ddiwallu anghenion byrdymor pobl ac mae ganddo ddealltwriaeth dda o'r manteision hirdymor posibl ond mae cyfleoedd i ystyried newidiadau ehangach mewn cymdeithas a all effeithio ar yr angen tymor hwy 8

Mae atal wrth galon y cam ac mae tystiolaeth o ddefnyddwyr gwasanaeth yn dangos bod hyn yn digwydd. Mae'r Cyngor yn ystyried yn rhagweithiol sut mae modd iddo ddangos effeithiolrwydd ei ddull ataliol o weithio 9

Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i ddatblygu ei ffordd o integreiddio ymhellach. Nid yw'r Cyngor yn ystyried yn llawn sut mae'r cam hwn yn cyfrannu at ei amcanion llesiant eraill ac amcanion y bwrdd iechyd 10

Mae timau seiliedig ar ardaloedd yn cydweithio'n dda i gyflawni'r weledigaeth ond gallai'r Cyngor gydweithio'n fwy fyth yn fewnol ac ystyried sut y gallai effeithio ar amcanion llesiant cyrff eraill 11

Mae dull y Cyngor o gyfranogi wedi'i ddatblygu'n dda a chyfrannodd yn effeithiol at yr ail-ddyluniad. Gallai'r Cyngor ddatblygu ei ymgysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth ymhellach i lywio gwaith dylunio a darparu'r gwasanaethau 12

Rhan dau: Ymateb Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen 13

Atodiadau

Atodiad 1: Dangosyddion cadarnhaol o'r pum ffordd o weithio 22

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam y gwnaethpwyd yr archwiliad

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) ddyletswydd statudol i archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth

a. bennu eu hamcanion llesiant; a

b. chymryd camau i'w bodloni.

Diffiniad y Ddeddf o'r egwyddor datblygu cynaliadwy yw gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.

2 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau i'r Cynulliad Cenedlaethol o leiaf flwyddyn cyn pob etholiad y Cynulliad. Rhaid cyflwyno'r adroddiad cyntaf o'r fath erbyn 2020, cyn etholiad y Cynulliad yn 2021.

3 Yn ystod 2018-19, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd ag archwiliadau ar draws y 44 o gyrff a gwmpesir gan y Ddeddf, i lywio ei adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol.

4 Ym Mai 2018, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad **Myfyrio ar Flwyddyn Un – Sut mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)**. Daeth i'r casgliad bod cyrff cyhoeddus yn cefnogi egwyddorion y Ddeddf ac yn cymryd camau i newid eu ffordd o weithio.

5 Wrth ddatblygu ein dull o gynnal yr archwiliadau yn ystod 2018-19, gwnaethom ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys trwy ein gwaith peilot yn ystod 2017-18. Gwnaethom weithio'n agos hefyd â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

6 Fel rhan o'r gwaith rhagarweiniol yn y flwyddyn gyntaf, ystyriwyd sut y bu i gyrff cyhoeddus osod eu hamcanion llesiant, felly prif ganolbwynt y gwaith hwn yw'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.

7 Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a wnaed gennym rhwng mis Medi 2018 a mis Rhagfyr 2018. Cynhaliom weithdy cwmpasu gwaith maes cychwynnol ym Medi 2018 gydag uwch swyddgogion y Cyngor ac uwch reolwyr y bwrdd iechyd, ac archwiliwyd sut y cafodd pob un o'r pum ffordd o weithio eu gweithredu.

8 Yna, adolygwyd y dogfennau allweddol gan gynnwys cofnodion y Pwyllgor Craffu, cynhaliwyd cyfweliadau â grwpiau o uwch swyddgogion y Cyngor/uwch reolwyr y bwrdd iechyd a'u haelodau etholedig. Cynhaliom drafodaethau â thimau seiliedig ar ardaloedd Gogledd Torfaen a Gorllewin Cwmbrân a chyfarfuom ag wyth

defnyddiwr gwasanaeth a'u teuluoedd yn ardaloedd Gogledd Torfaen a Gorllewin Cwmbrân.

9 Mae'r adroddiad hwn yn gosod canfyddiadau ein harchwiliad o ddatblygu model newydd i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol ar sail timau seiliedig ar ardaloedd. Dyma gam y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (y Cyngor) yn ei gymryd i gyflawni ei amcanion llesiant.

10 Mae'n nodi ymateb cychwynnol y Cyngor i'n canfyddiadau hefyd.

## Yr hyn a archwiliwyd

11 Archwiliwyd i ba raddau mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu model newydd ar gyfer darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion ar sail timau seiliedig ar ardaloedd.

12 Daw 'cam' datblygu model newydd y Cyngor ar gyfer darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol ar sail timau seiliedig ar ardaloedd dan amcan ail-ddylunio gwasanaethau i oedolion o blith amcanion llesiant y Cyngor.

13 Cyn y model newydd hwn, roedd model darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol y Cyngor yn 'draddodiadol' ac roedd yn cynnwys gwasanaeth i bobl hŷn, pod dyletswydd, gwasanaeth i bobl anabl, gwasanaeth iechyd meddwl i bobl hŷn, tîm anableddau dysgu a thîm iechyd meddwl oedolion, yn ogystal â gwasanaethau dydd a gofal yn y cartref.

14 Dros nifer o flynyddoedd, mae gwasanaethau'r Cyngor i oedolion wedi wynebu pwysau sylweddol ar eu cyllideb

15 Yn ystod 2011-12, torrodd y Cyngor ei gyllideb ar gyfer pecynnau gofal gyda golwg ar wneud arbedion sylweddol.

16 Gwnaed arbedion ond cydnabu'r Cyngor y daeth yr arbedion hyn ar draul datrysiadau ataliol a'i berthynas â'r bobl yr oedd yn ceisio rhoi cymorth iddynt

17 Yn 2014-15, adolygodd y Cyngor y system ymhellach a chanfu fod y system yn sbarduno arferion a oedd yn gwneud defnyddwyr yn ddibynnol ar wasanaethau ac nad oedd yn gynaliadwy. Roedd lefel salwch ymysg staff yr adran yn uchel, roedd morâl y staff yn isel a daeth y Cyngor i'r casgliad fod ganddo ddiffyg gweledigaeth y gallai'r holl staff ei chefnogi a'i hymgorffori i wneud gwahaniaeth i ddinasyddion Torfaen

18 Yn 2015, penderfynodd y Cyngor i ail-ddylunio'r gwasanaethau i oedolion â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn brif sbardun ac ymwybyddiaeth o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

19 Tua diwedd 2015, gweithiodd y Cyngor gydag ymgynghorwyr i adolygu'r system bresennol a datblygodd ddull y timau seiliedig ar ardaloedd. Timau rhyngddisgyblaethol yw timau seiliedig ar ardaloedd yn hytrach na thimau seiliedig ar wasanaethau. .

20 Ym Mawrth 2016, cytunodd y Cyngor i dreialu tîm seiliedig ar ardal mewn un ardal.

21 Tua diwedd haf 2016, adolygodd y Cyngor lwyddiant a heriau'r cynllun peilot.

22 Yn Ionawr 2017, symudodd y Cyngor at dimau seiliedig ar ardaloedd i gwmpasu'r fwrdeistref sirol gyfan. Mae pum tîm seiliedig ar ardaloedd sy'n cyd-fynd â ffiniau'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth ar draws Bwrdeistref Sirol Torfaen. Mae dau dîm yn y gogledd a thri yn y de.

23 Timau rhyngddisgyblaethol yw'r timau seiliedig ar ardaloedd ac maent yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol, gweithwyr gofal yn y gymuned, cynorthwywyr ail-alluogi a chynorthwywyr therapi galwedigaethol. Mae staff y timau seiliedig ar ardaloedd yn gweithio gyda phobl y mae'n bosibl bod angen cymorth ac ymyriadau gwaith cymdeithasol arnynt mewn ardaloedd a ddiffiniwyd yn ddaearyddol. Mae'r timau anableddau dysgu, iechyd meddwl oedolion, gwasanaethau cymunedol a chyfleoedd dydd yn parhau i weithio trwy'r fwrdeistref gyfan.

24 Mae gweledigaeth y timau seiliedig ar ardaloedd a ddatblygwyd gyda defnyddwyr gwasanaeth fel a ganlyn:

**Fy ngalluogi i fyw fy mywyd y ffordd rwy'n dewis ei fyw.**

25 Nawr mae'r timau seiliedig ar ardaloedd yn gwrando i ddeall 'yr hyn sy'n bwysig' i'r unigolyn, ac yn gweithio gyda nhw i nodi canlyniadau personol a datrysiadau unigol sy'n eu galluogi i fyw eu bywyd yn y ffordd a ddymunant. Mae'r canolbwynt ar gydgynhyrchu, pobl yn arbenigwyr ar eu sefyllfaoedd eu hunain a'u galluogi i ddefnyddio hierarchaeth cymorth i hybu annibyniaeth, cynhwysiant cymdeithasol a chymryd risgiau'n gadarnhaol. Mae'r timau ardaloedd wedi dechrau magu gwell cysylltiadau â'r gymuned, gan ymwneud â gweithgareddau cymunedol a chryfhau'r cysylltiadau â darparwyr lleol a rhanddeiliaid allweddol.

26 Er mwyn gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y 'ffyrdd o weithio' canlynol:

## Arddangosyn 1: y 'pum ffordd o weithio'

Mae'r tabl isod yn gosod y 'pum ffordd o weithio' fel y'u diffinnir yn nogfen **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr hanfodion**[1] gan Lywodraeth Cymru.

| Y pum ffordd o weithio |
|---|
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion byrdymor a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd. |
| **Atal**<br>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |

[1] **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr hanfodion**, Llywodraeth Cymru (2015).

| Y pum ffordd o weithio |
| --- |
| **Cydweithio**<br>Gallai cydweithredu ag unrhyw unigolyn arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant. |
| **Cyfranogiad**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y maent yn ei gwasanaethu. |

27 Canfu ein harchwiliad y canlynol:**Wrth ddarparu'r model newydd o ofal cymdeithasol a gweithredu'n unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, mae gan y Cyngor sawl enghraifft gadarnhaol o'r ffordd y mae wedi ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy, yn enwedig o ran atal a chyfranogiad. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod bod mwy i'w wneud i wreiddio pob un o'r pum ffordd o weithio'n gyson a gallai wella ei waith integreiddio o fewn y Cyngor a chyda phartneriaid allanol.**

# Atodiad 1

## Rhan un: Canfyddiadau'r archwiliad

### Wrth ddatblygu ei dimau seiliedig ar ardaloedd, mae'r Cyngor mewn sefyllfa well i ddiwallu anghenion byrdymor pobl ac mae ganddo ddealltwriaeth dda o'r manteision hirdymor posibl, ond mae cyfleoedd i roi mwy o ystyriaeth i newidiadau ehangach mewn cymdeithas a all effeithio ar yr angen tymor hwy

#### Yr hyn yr edrychom amdano

28 Edrychom am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr o'r anghenion presennol a hirdymor a'r heriau a'r cyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio amserlen briodol;
- adnoddau a ddyrannwyd i sicrhau manteision hirdymor;
- monitro ac adolygu priodol.

29 Hefyd, cafodd ein harchwiliad ei lywio gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr 'hirdymor' yr ydym wedi'u nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[2]

#### Beth a ganfuwyd

30 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth drylwyr a datblygedig o heriau presennol poblogaeth sy'n heneiddio ac effaith bosibl mwy o alw ar wasanaethau cymdeithasol
- Mae timau seiliedig ar ardaloedd wedi bod yn agored i roi cynnig ar ffyrdd newydd o wneud pethau i ddwyn manteision i bobl
- Yn y bôn, mae timau seiliedig ar ardaloedd yn negodi dulliau ataliol tymor hwy o weithio gyda phobl yn hytrach na dim ond darparu gwasanaethau
- Mae timau seiliedig ar ardaloedd yn datblygu cadernid ac annibyniaeth pobl gyda golwg ar fanteision tymor hwy

31 Nodwyd y meysydd canlynol i'w datblygu:

- Datblygu dealltwriaeth cymunedau o natur newidiol y ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol i oedolion ymhellach

[2] Gweler Atodiad 1.

- Ystyried effaith ffactorau cymdeithasol ehangach ar ddarparu gwasanaethau cymdeithasol i oedolion, gan gynnwys adroddiadau cenedlaethol ar Dueddiadau'r Dyfodol, i lywio datblygiad pellach y model seiliedig ar ardaloedd i ddiwallu'r angen tymor hwy

## Mae atal wrth galon y cam ac mae tystiolaeth o ddefnyddwyr gwasanaeth yn dangos bod hyn yn digwydd. Mae'r Cyngor yn mynd ati'n rhagweithiol i ystyried sut y gall ddangos effeithiolrwydd ei ddull ataliol o weithio

### Yr hyn yr edrychom amdano

32 Edrychom am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr o'r math o broblem a'i natur y gallai'r cam helpu i'w hatal rhag digwydd neu waethygu;
- adnoddau a ddyrannwyd i sicrhau y cyflawnir manteision ataliol; a
- monitro ac adolygu pa mor effeithiol mae'r cam yn atal problemau rhag digwydd neu waethygu.

33 Hefyd, cafodd ein harchwiliad ei lywio gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘atal’ yr ydym wedi'u nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[3]

### Beth a ganfuwyd

34 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- Mae timau seiliedig ar ardaloedd yn deall anghenion pobl yn well, a bellach mae modd iddynt ddarparu dulliau atal sy'n fwy addas i anghenion pobl ac sy'n helpu i osgoi argyfyngau
- Trwy ei dimau seiliedig ar ardaloedd, mae'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau presennol yn wahanol i ddarparu dulliau atal

35 Nodwyd y meysydd canlynol i'w datblygu:

- Mireinio'r mesurau perfformiad sydd newydd eu datblygu i fonitro effaith ataliol y timau seiliedig ar ardaloedd
- Datblygu ymhellach ddealltwriaeth y timau ardaloedd o adnoddau eraill y Cyngor ac adnoddau eraill yn y gymuned a all helpu i hybu llesiant pobl

[3] Gweler Atodiad 1

## Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i ddatblygu ei ffordd o integreiddio ymhellach. Nid yw'r Cyngor yn ystyried yn llawn sut mae'r cam hwn yn cyfrannu at ei amcanion llesiant eraill ac amcanion y bwrdd iechyd

### Yr hyn yr edrychom amdano

36 Edrychom am dystiolaeth o ystyried y canlynol:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant a blaenoriaethau ehangach y Cyngor;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

37 Hefyd, cafodd ein harchwiliad ei lywio gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘integreiddio’ yr ydym wedi'u nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[4]

### Beth a ganfuwyd

38 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- Mae gweithio seiliedig ar ardaloedd yn dechrau dylanwadu ar waith seiliedig ar lefydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

39 Nodwyd y meysydd canlynol i'w datblygu:

- Weithiau, caiff integreiddio ei ddrysu gyda chydweithio, felly dylai'r Cyngor ddatblygu dealltwriaeth y staff o ystyr integreiddio yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a sut i’w chymhwyso
- Ystyried cyfraniad y cam at saith nod llesiant cenedlaethol ac amcanion llesiant y Cyngor a chyrff cyhoeddus eraill
- Datblygu'r ddealltwriaeth o'r ffordd y gall y cam hwn effeithio ar amcanion llesiant y bwrdd iechyd (er enghraifft, strategaeth Nes at y Cartref)

[4] Gweler Atodiad 1

## Mae timau seiliedig ar ardaloedd yn cydweithio'n dda i gyflawni'r weledigaeth ond gallai'r Cyngor gydweithio'n fwy fyth yn fewnol ac ystyried sut y gallai effeithio ar amcanion llesiant cyrff eraill

### Yr hyn yr edrychom amdano

40 Edrychom am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu i helpu corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw'r cydweithio'n helpu ef neu ei randdeiliaid i gyflawni eu hamcanion llesiant.

41 Hefyd, cafodd ein harchwiliad ei lywio gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘cydweithio’ yr ydym wedi'u nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[5]

### Beth a ganfuwyd

42 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- Mae'r gwaith ail-ddylunio wedi arwain at ganolbwynt cryf iawn ar lefydd, cymunedau a chanlyniadau yn hytrach na ffiniau sefydliadol
- Mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn rhoi gwerth ar y cyfraniadau y gall yr holl bartneriaid eu gwneud
- Mae gan y Cyngor berthynas gadarnhaol gyda'r bwrdd iechyd ac mae'r berthynas honno'n aeddfedu
- Mae'r Cyngor yn ceisio cydweithio'n well a all arwain at well integreiddio (er enghraifft, Gartref yn Gyntaf)

43 Nodwyd y meysydd canlynol i'w datblygu:

- Datblygu a chryfhau cydberthnasau'r timau seiliedig ar ardaloedd gyda gweithwyr proffesiynol eraill a chymunedau lleol
- Cyfleoedd i'r staff yn y timau seiliedig ar ardaloedd gyfarfod a rhannu gwybodaeth a dulliau o weithio

[5] Gweler Atodiad 1

## Mae dull y Cyngor o gyfranogi wedi'i ddatblygu'n dda a chyfrannodd yn effeithiol at yr ail-ddyluniad. Gallai'r Cyngor ddatblygu ei ymgysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth ymhellach i lywio'r gwaith dylunio a darparu'r gwasanaethau

### Yr hyn yr edrychom amdano

44 Edrychom am dystiolaeth bod y Cyngor wedi:

- nodi pwy y mae angen iddo ei gynnwys yn y broses o ddylunio a chyflawni'r cam;
- cynnwys y rhanddeiliaid allweddol yn effeithiol yn y broses o ddylunio a chyflawni'r cam;
- defnyddio canlyniadau'r cyfranogiad i lywio'r ffordd y caiff y cam hwn ei ddatblygu a'i gyflawni;
- ceisio dysgu gwersi a gwella ei ddull o gyfranogi.

45 Hefyd, cafodd ein harchwiliad ei lywio gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘cyfranogiad’ yr ydym wedi'u nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[6]

### Beth a ganfuwyd

46 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- Defnyddiodd y gwasanaeth farn pobl i lywio'r ail-ddyluniad ac mae bellach wedi sefydlu proses effeithiol o weithio gyda defnyddwyr y gwasanaeth a'u teuluoedd i ddeall yr hyn sydd ei angen arnynt oddi wrth wasanaethau cymdeithasol
- Erbyn hyn, mae'r timau seiliedig ar ardaloedd yn cael trafodaethau gwahanol iawn gyda phobl gan ganolbwyntio ar yr hyn sydd o bwys iddynt, llesiant yn fwy cyffredinol ac nid dim ond ar gymhwysedd i ddefnyddio'r gwasanaeth, ac roedd y bobl hynny y cyfarfuom â nhw yn amlwg yn teimlo’n rhan o'r gwaith
- Teimlodd y timau seiliedig ar ardaloedd yn rhan o'r broses ail-ddylunio ac maent yn teimlo bod ganddynt rym i ganfod datrysiadau trwy ddull ’powlen bysgod’
- Cydberthnasau gwaith cadarnhaol â'r bwrdd iechyd ar y lefel uwch, sy'n dechrau datblygu ffyrdd newydd o weithio i gyflawni nodau ar y cyd

47 Nodwyd y meysydd canlynol i'w datblygu:

- Cyfleoedd i amrywiaeth eang o ddefnyddwyr gwasanaeth helpu i ddylunio a chyflawni datrysiadau
- Cynnwys sefydliadau partner, gan gynnwys y trydydd sector

[6] Gweler Atodiad 1

# Rhan dau: Ymateb y Cyngor

48 Yn dilyn ein gwaith maes, cyflwynwyd ein canfyddiadau i'r Cyngor mewn gweithdy yn Chwefror 2019 a fynychwyd gan uwch reolwyr o adran gwasanaethau cymdeithasol i oedolion y Cyngor, arweinwyr tîm o dri o'r timau seiliedig ar ardaloedd, yr aelod gweithredol, pennaeth cymorth a gwybodaeth busnes y Cyngor, Uwch Swyddog Craffu a Gwelliant Corfforaethol y Cyngor a chynrychiolydd o'r bwrdd iechyd lleol. Yn y gweithdy hwn, dechreuodd y Cyngor ystyried ei ymateb i'n canfyddiadau ac o ganlyniad i'r trafodaethau yn y gweithdy a rhagor o fyfyrio ar ein canfyddiadau, mae'r Cyngor wedi datblygu'r camau gweithredu canlynol.

Arddangosyn 2: ymateb y Cyngor

| YMATEB I SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU | | |
|---|---|---|
| Meysydd i'w datblygu | Gweithgareddau presennol a chamau gweithredu yn y dyfodol | Pwy |
| Hirdymor<br>Trwy ddatblygu ei dimau seiliedig ar ardaloedd, mae'r cyngor mewn sefyllfa well i ddiwallu anghenion byrdymor pobl ac mae ganddo ddealltwriaeth dda o'r manteision hirdymor posibl, ond mae cyfleoedd i roi mwy o ystyriaeth i newidiadau ehangach mewn cymdeithas a all effeithio ar yr angen hirdymor.<br>Meysydd i'w datblygu<br>• Datblygu dealltwriaeth cymunedau o natur newidiol y ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol i oedolion ymhellach.<br>• Ystyried effaith ffactorau cymdeithasol ehangach ar ddarparu gwasanaethau cymdeithasol i oedolion, gan gynnwys adroddiadau cenedlaethol ar Dueddiadau'r Dyfodol, i lywio datblygiad pellach y model seiliedig ar ardaloedd i ddiwallu'r angen tymor hwy. | Derbynnir bod angen mwy o waith i ddatblygu gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd a chael gwybod eu barn ar yr hyn yr hoffent ei weld a'r hyn y disgwylir ganddynt yn y dyfodol.<br><br>Mae rhywfaint o waith eisoes wedi dechrau ar ffurf ymgysylltu â'r gymuned trwy'r timau seiliedig ar ardaloedd. Mae rhagor o waith arfaethedig:<br>• Rhagor o ymgysylltu â'r cyhoedd i gynghori ac i drafod natur newidiol cymorth y gwasanaethau i oedolion ac i gasglu eu barn. Caiff hyn ei gyflawni trwy fynychu digwyddiadau cymunedol, stondinau dros dro, fforymau lleol a thrafodaethau un wrth un.<br>• Caiff taflenni eu hadolygu, ond cydnabyddir mai dim ond rhan fach o ymgysylltu â'r cyhoedd yw hon sy'n gofyn am lawer o adnoddau.<br>• Mae angen rhagor o waith gyda thîm y cyfryngau Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a'r Gwasanaeth Adnoddau a Rennir i ddatblygu strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu ehangach trwy well gwefan a chyfryngau cymdeithasol.<br>• Rydym yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i ddatblygu teclyn hunanasesu ar y we ar gyfer offer lefel isel. | Timau Gofal Cymdeithasol i Oedolion – parhaus.<br>Cymorth gan y Tîm Cyfathrebu a'r Gwasanaeth Adnoddau a Rennir.<br><br>Wrthi'n aros am gadarnhad am gyllid gan y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer mis Ebrill 2019, i'w ddatblygu trwy Benaethiaid y Gwasanaethau i Oedolion. |

| YMATEB I SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU | | |
|---|---|---|
| Meysydd i'w datblygu | Gweithgareddau presennol a chamau gweithredu yn y dyfodol | Pwy |
| Hirdymor<br>Trwy ddatblygu ei dimau seiliedig ar ardaloedd, mae'r cyngor mewn sefyllfa well i ddiwallu anghenion byrdymor pobl ac mae ganddo ddealltwriaeth dda o'r manteision hirdymor posibl, ond mae cyfleoedd i roi mwy o ystyriaeth i newidiadau ehangach mewn cymdeithas a all effeithio ar yr angen hirdymor.<br>Meysydd i'w datblygu<br>• Datblygu dealltwriaeth cymunedau o natur newidiol y ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol i oedolion ymhellach.<br>• Ystyried effaith ffactorau cymdeithasol ehangach ar ddarparu gwasanaethau cymdeithasol i oedolion, gan gynnwys adroddiadau cenedlaethol ar Dueddiadau'r Dyfodol, i lywio datblygiad pellach y model seiliedig ar ardaloedd i ddiwallu'r angen tymor hwy. | Bydd y data o'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, ynghyd â'r data sydd ar gael o'r Adroddiad ar Dueddiadau'r Dyfodol, yn llywio ein barn a'n cyfeiriad ar gyfer y dyfodol.<br>• Rydym eisoes wedi denu cyllid gan gynllun *GovTech* Llywodraeth y DU i ymchwilio i sut gall technoleg hybu ein cynnig i'r cyhoedd yn y dyfodol.<br>• O safbwynt lleol, rydym yn defnyddio adnoddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i fapio'r galw presennol a'r galw yn y dyfodol trwy declynnau mapio System Wybodaeth Ddaearyddol (Cynllun Gwaith Partneriaeth Integredig Torfaen).<br>• Rydym yn cyfrannu at ffrydiau gwaith corfforaethol T22 i sicrhau bod ymateb system gyfan i'r boblogaeth a'r dirwedd ddiwylliannol sy'n newid.<br>• Rydym yn datblygu strategaeth Technoleg Gynorthwyol i ymchwilio i dechnoleg sy'n dod i'r amlwg a sut gellid defnyddio hon i alluogi a hyrwyddo annibyniaeth. | Rheolwr Datblygu Gofal Cymdeithasol – ‘cystadleuaeth’ yn dechrau ym mis Mehefin 2019, dyfarnu'r contract ym mis Hydref 2019<br><br>Tîm Gwasanaethau Cymunedol Awst 2019 |

| YMATEB I SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU | | |
|---|---|---|
| Meysydd i'w datblygu | Gweithgareddau presennol a chamau gweithredu yn y dyfodol | Pwy |
| Integreiddio<br><br>Mae'r cyngor yn cydnabod yr angen i ddatblygu ei ffordd o integreiddio ymhellach. Nid yw'r cyngor yn ystyried yn llawn ar hyn o bryd sut mae'r cam hwn yn cyfrannu at ei amcanion llesiant eraill ac amcanion y bwrdd iechyd.<br><br>Meysydd i'w datblygu<br>• Weithiau, caiff integreiddio ei ddrysu gyda chydweithio, felly dylai'r cyngor ddatblygu dealltwriaeth y staff o ystyr integreiddio yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a sut i'w gymhwyso.<br>• Ystyried cyfraniad y cam at saith nod llesiant cenedlaethol ac amcanion llesiant y cyngor a chyrff cyhoeddus eraill.<br>• Datblygu'r ddealltwriaeth o'r ffordd y gall y cam hwn effeithio ar amcanion llesiant y bwrdd iechyd (er enghraifft, strategaeth Nes at y Cartref). | Mae templed asesu llesiant y cyngor wedi cael ei adolygu i gryfhau rhannau o'r dull cyfredol o weithio. Mae'r templed newydd yn cyfeirio at amcanion llesiant y cyngor a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn ogystal â'r saith nod llesiant cenedlaethol. Wrth gwblhau'r templed, dylai'r prif swyddog ystyried y rhain a dangos sut mae eu gwaith yn cyd-fynd â chyd-destun ehangach yr hyn mae'r cyngor, partneriaid lleol a Llywodraeth Cymru yn ceisio ei gyflawni.<br><br>Bydd gwaith datblygu'n cael ei gynnal i herio asesiadau llesiant gorffenedig yn fwy er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth i holl agweddau'r Ddeddf.<br><br>Ceisir hyfforddiant gan swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ddatblygu gwell dealltwriaeth ar gyfer swyddogion ac aelodau o ran cymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn eu gwaith. | Uwch-swyddog Gwelliannau a Chraffu Corfforaethol – parhaus<br><br>Fel yr uchod<br><br>Uwch-swyddog Gwelliannau a Chraffu Corfforaethol – haf 2019 |

| YMATEB I SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU | | |
|---|---|---|
| Meysydd i'w datblygu | Gweithgareddau presennol a chamau gweithredu yn y dyfodol | Pwy |
| Cyfranogiad<br><br>Mae dull y cyngor o gyfranogi wedi'i ddatblygu'n dda a chyfrannodd yn effeithiol at yr ail-ddyluniad. Gallai'r cyngor ddatblygu ei ymgysylltiad â defnyddwyr gwasanaethau ymhellach i lywio'r gwaith dylunio a darparu'r gwasanaethau.<br><br>Meysydd i'w datblygu<br>• Cyfleoedd i amrywiaeth eang o ddefnyddwyr gwasanaethau helpu i ddylunio a chyflawni gwasanaethau.<br>• Cynnwys sefydliadau partner, gan gynnwys y trydydd sector. | Mae sawl enghraifft a chyfle ar gyfer cyfranogi yn y broses ail-ddylunio.<br>Rydym wrthi'n ymgysylltu â'r cyhoedd a darparwyr:<br>• Mae'r pum awdurdod lleol wrthi'n datblygu strategaeth gomisiynu eiriolaeth i oedolion Gwent. Ffurfiwyd Grŵp Cyfeirio Eiriolaeth y Dinasyddion ym mis Medi 2018. Mae'r grŵp yn cynnwys pobl hŷn, pobl ag anableddau dysgu, pobl anabl eraill a rhieni sy'n ofalwyr. Yn ogystal â hynny, lansiwyd y Fforwm Cydgynhyrchu Eiriolaeth yn ystod y mis canlynol. Mae hyn wedi dod â chynrychiolwyr o Grŵp Cyfeirio Eiriolaeth y Dinasyddion, Rhwydwaith y Darparwyr Eiriolaeth a Grŵp Llywio'r Comisiynwyr Eiriolaeth ynghyd. Etholwyd un aelod o bob un o'r tri grŵp yn gyd-gadeirydd. Diben y fforwm yw rhannu cyfrifoldeb am gydgynhyrchu cynlluniau perthnasol. Dechreuodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar ddatblygu'r strategaeth gomisiynu gyda gweithdy ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, gan gynnwys aelodau o bob un o'r pum grŵp Pobl yn Gyntaf lleol a'u gweithwyr cymorth (Grŵp Comisiynu Gwent).<br>• Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, mae staff y gwasanaethau i oedolion wedi bod yn cael sgyrsiau anffurfiol gyda'u cleientiaid a'u gofalwyr i gael gwybod eu barn a dylanwadu ar y broses o ail-ddylunio cyfleoedd dydd i bobl â dementia.<br>• Rydym wedi gweithio gyda darparydd o'r trydydd sector yng ngogledd Torfaen i lywio camau nesaf y strategaeth gofal cartref trwy'r gwersi a ddysgwyd drwy gydol y flwyddyn.<br>• Rydym wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen ar draws y pum awdurdod lleol, gan gysylltu â'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector i ddylanwadu ar drefniadau comisiynu rhanbarthol (Grŵp Comisiynu Gwent). | Staff comisiynu/caffael<br>Sefydliadau partner, pum awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. I ddod i ben yn 2020<br><br>Gwasanaethau i Oedolion, barn i'w chasglu, papur drafft ym mis Mehefin 2019<br><br>Parhaus |

| YMATEB I SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU | | |
|---|---|---|
| Meysydd i'w datblygu | Gweithgareddau presennol a chamau gweithredu yn y dyfodol | Pwy |
| Cyfranogiad<br><br>Mae dull y cyngor o gyfranogi wedi'i ddatblygu'n dda a chyfrannodd yn effeithiol at yr ail-ddyluniad. Gallai'r cyngor ddatblygu ei ymgysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth ymhellach i lywio'r gwaith dylunio a darparu'r gwasanaethau.<br><br>Meysydd i'w datblygu<br>• Cyfleoedd i amrywiaeth eang o ddefnyddwyr gwasanaethau helpu i ddylunio a chyflawni gwasanaethau<br>• Cynnwys sefydliadau partner, gan gynnwys y trydydd sector | Wrth symud ymlaen, bydd pedwar prif weithgaredd newid yn cael eu datblygu yn 2019/20 (Cynllun Gwasanaeth Gofal Cymdeithas a Thai 2019/20):<br>• Datblygu opsiynau sy'n seiliedig ar y gwely<br>• Ail-ddylunio'r 'drws blaen'<br>• Ehangu a newid y ddarpariaeth gofal cartref<br>• Ailfodelu'r gweithgareddau dydd i adlewyrchu 'sut beth yw diwrnod da'<br>Bydd ymgysylltu â'r cyhoedd yn cael ei gynnwys yn yr holl weithgareddau newid – er enghraifft, i ddeall sut beth yw diwrnod da, bydd ymgysylltu â'r gymuned a chydgynhyrchu'n allweddol i gyflawni newid llwyddiannus a chynaliadwy. Rydym yn cydnabod y bydd angen cymorth sefydliad(au) niwtral mewn rôl allanol a gwrthrychol sy'n ymgysylltu â phobl ar draws pob grŵp. Mae pedwar grŵp allweddol: pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a phobl a allai ddefnyddio'r gwasanaeth yn y dyfodol, gofalwyr di-dâl a theuluoedd, y gymuned, a gweithwyr proffesiynol.<br>Rydym yn cynnig ein bod yn mynd at grŵp eirioli neu hunaneirioli i gasglu barn pobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Byddai hyn yn cynnwys holi cwestiynau agored i 100 a mwy o bobl ynglŷn â'r hyn sydd bwysicaf iddynt yn eu bywydau, sut beth yw bywyd da nawr, neu'r hyn maent yn breuddwydio amdano, pam, a sut maent am weld hynny'n cael ei alluogi fwyaf. Rydym yn cydnabod y bydd angen ar rai pobl â chyfathrebu cyfyngedig eiriolwr sy'n gymwys i ddefnyddio teclyn Talking Mats neu declynnau cyfathrebu eraill i hwyluso hyn. Byddwn hefyd yn ymgysylltu â'r grwpiau eraill gan ddefnyddio'r moddau mwyaf priodol. Rydym yn cynnig cyfarfod â phobl mewn grwpiau o bump neu chwech, ond llawer llai pan fydd gan bobl broblemau cyfathrebu. Byddai angen tua 20–30 o sesiynau sy'n para rhwng un a dwy awr. Byddai'r sesiynau hyn hefyd yn cynnwys gofalwyr di-dâl, gweithwyr proffesiynol a'r gymuned ehangach.<br>Er hoffem ailfynegi dwyster y gwaith ymgysylltu hwn yn ein holl weithgareddau newid, mae lefel yr ymgysylltu a gynlluniwyd i lywio sut beth yw diwrnod da yn bosibl trwy adnoddau ychwanegol a ariannwyd gan grant. Rydym yn ymwybodol ei bod yn anodd cyrraedd pobl sy'n methu â chael cyfle i leisio'u barn neu nad ydynt yn cael y cyfle hwnnw drwy'r amser ac ystyrir hyn yn ein cynlluniau ymgysylltu. | Gwasanaethau i Oedolion 2019/20 |

| YMATEB I SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU | | |
|---|---|---|
| Meysydd i'w datblygu | Gweithgareddau presennol a chamau gweithredu yn y dyfodol | Pwy |
| Cydweithio<br><br>Mae timau seiliedig ar ardaloedd yn cydweithio'n dda i gyflawni'r weledigaeth ond gallai'r cyngor gydweithio'n fwy fyth yn fewnol ac ystyried sut y gallai effeithio ar amcanion llesiant cyrff eraill.<br><br>Meysydd i'w datblygu<br>• Datblygu a chryfhau cydberthnasau'r timau seiliedig ar ardaloedd gyda gweithwyr proffesiynol eraill a chymunedau lleol.<br>• Cyfleoedd i'r staff yn y timau seiliedig ar ardaloedd gyfarfod a rhannu dulliau o ddysgu. | Cryfhau'r berthynas â chymunedau a gweithwyr proffesiynol yw un o amcanion y timau seiliedig ar ardaloedd ers y cychwyn cyntaf. Mewn gwirionedd, mae'r adran gwasanaethau i oedolion wedi ei chael yn anodd dod o hyd i adnoddau digonol (amser y staff) i'w neilltuo i'r maes hwn.<br><br>Er gwaethaf yr heriau o ran adnoddau, mae'r adran Gwasanaethau i Oedolion wedi:<br>• Cynnal cyfarfodydd cynhyrchiol â nyrsys ardal mewn lleoliadau<br>• Manteisio'n effeithiol ar gyfleoedd cyd-leoli, e.e. perthynas Tîm Llesiant Gorllewin Cwmbrân â Thai Cymunedol Bron Afon<br>• Sefydlu prosiect mewn meddygfa leol sy'n datblygu perthnasau â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan / meddygon teulu a'r gymuned<br>• Cysylltu â'r gymuned trwy grwpiau ffydd a chymdeithasol<br>• Cytuno â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i ddatblygu gwasanaeth therapi galwedigaethol integredig ar gyfer y fwrdeistref<br><br>Rydym wedi ymgysylltu â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddatblygu model seiliedig ar lefydd ym Mlaenafon ac, yn ddiweddar, rydym wedi penodi Cydlynydd Llesiant i helpu i lywio a datblygu'r cyd-feddwl. Trwy'r bartneriaeth strategol, rydym yn mapio adnoddau ac asedau'r cyngor a gwasanaethau iechyd ar y cyd yn y fwrdeistref ynghyd â galw'r boblogaeth ar ein gwasanaethau priodol.<br>Bydd adolygu asesiad llesiant y cyngor yn rhoi cymorth i'r swyddogion ystyried amcanion y cyngor a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod ein gwaith cynllunio.<br>Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cyd-ddysgu ar draws y timau a byddwn yn holi'r staff ynglŷn â sut hoffent gyflawni hyn. | Holl staff Gwasanaethau i Oedolion<br>Sefydliadau partner (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus)<br>Pum awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br>Erbyn mis Hydref 2020<br><br>Aelodau o Bartneriaeth Integredig Torfaen<br><br>Gwasanaethau i Oedolion Ebrill 2019 |

| YMATEB I SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU | | |
|---|---|---|
| Meysydd i'w datblygu | Gweithgareddau presennol a chamau gweithredu yn y dyfodol | Pwy |
| Atal<br><br>Mae atal wrth galon y cam ac mae tystiolaeth o ddefnyddwyr gwasanaethau yn dangos bod hyn yn digwydd. Mae'r cyngor yn mynd ati'n rhagweithiol i ystyried sut y gall ddangos effeithiolrwydd ei ddull ataliol o weithio.<br><br>Meysydd i'w datblygu<br>• Mireinio'r mesurau perfformiad sydd newydd eu datblygu i fonitro effaith ataliol y timau seiliedig ar ardaloedd.<br>• Datblygu ymhellach ddealltwriaeth y timau ardaloedd o adnoddau eraill y cyngor ac adnoddau eraill yn y gymuned a all helpu i hybu llesiant pobl | Rydym wedi sefydlu cyfarfodydd perfformiad bob yn ail fis i adolygu a mireinio mesurau perfformiad seiliedig ar ardaloedd i sicrhau bod cydbwysedd o ddata ansoddol a meintiol ar gael. Fel y nodwyd uchod, rydym hefyd wedi penodi Cydlynydd Llesiant Integredig i Dorfaen, a fydd yn rhoi cymorth i'r cyngor (gan gynnwys y timau seiliedig ar ardaloedd) ac i bartneriaid i greu cysylltiadau ac ehangu ein gwybodaeth am yr adnoddau sydd ar gael.<br><br>Wrth symud ymlaen, byddwn yn:<br>• Adolygu ein drws blaen a'n cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth<br>• Parhau â'n grŵp gorchwyl a gorffen ar ddatblygu timau seiliedig ar ardaloedd (ansawdd data)<br>• Parhau i adolygu cynnydd trwy'r Grŵp Galluogi<br>• Cyfrannu at brosiect Byw yn Glyfar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – gweithdai sy'n mapio cydweithio gyda ffocws cymunedol – a dylanwadu arno<br>• Datblygu ein gwybodaeth am yr adnoddau sydd ar gael<br>• Parhau i greu perthnasau â rhanddeiliaid/darparwyr<br>• Dysgu gan beilot arfaethedig Tîm Llesiant Dwyrain Cwmbrân ar gatalyddion unigrwydd<br>• Sicrhau y cawn ein cynrychioli ar draws y cyngor ehangach | Holl staff Gwasanaethau i Oedolion – parhaus 2019/20<br>Sefydliadau partner (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus)<br>Pum awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br>Aelodau o Bartneriaeth Integredig Torfaen |

49 Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor wrth gyflawni'r camau gweithredu hyn, ac i ba raddau y maent yn mynd i'r afael â'r problemau a nodwyd yn ein canfyddiadau.

# Atodiad 1

## Dangosyddion cadarnhaol o'r pum ffordd o weithio

Mae'r tabl isod yn gosod 'dangosyddion cadarnhaol' ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio yr ydym wedi'u nodi ac y byddwn yn eu defnyddio i helpu i lywio ein hasesiadau o'r raddfa y gallai cyrff fod yn gweithredu'r egwyddor datblygu gynaliadwy. Nid ydym yn bwriadu defnyddio'r dangosyddion fel 'rhestr wirio'. Dylid eu hystyried yn 'ddangosyddion' a fydd yn ein helpu i greu casgliad, yn hytrach na 'phenderfynyddion' o'r raddfa y mae corff yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu gynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

Arddangosyn 3: dangosyddion cadarnhaol o'r pum ffordd o weithio

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn gweithredu'r ffordd hirdymor o weithio yn ei chyfanrwydd? |
|---|
| • Dealltwriaeth glir o 'hirdymor' yng nghyd-destun y Ddeddf<br>• Cam a ddyluniwyd i gyflawni'r amcan/ion llesiant a chyfrannu at y weledigaeth hirdymor<br>• Cam a ddyluniwyd i gyflawni manteision byrdymor neu dymor canolig, wedi'i gydbwyso ag effaith hirdymor<br>• Cam a ddyluniwyd ar sail dealltwriaeth drylwyr o anghenion, tueddiadau a phwysau, nawr ac yn y dyfodol<br>• Dealltwriaeth gynhwysfawr o risgiau a chyfleoedd nawr ac yn y dyfodol.<br>• Adnoddau a ddyrannwyd i sicrhau manteision hirdymor yn ogystal â byrdymor<br>• Canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau – a phan fydd y rhain yn rhai hirdymor, nodi cerrig milltir<br>• Bod yn agored i ffyrdd newydd o gyflawni pethau a allai helpu i ddwyn manteision yn yr hirdymor<br>• Rhoi gwerth ar ddeallusrwydd a mabwysiadu dulliau o weithio ar sail tystiolaeth |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn gweithredu'r ffordd ataliol o weithio yn ei chyfanrwydd?** |
| • Ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel bod modd trechu cylchoedd negyddol a heriau rhyng-genedlaethol<br>• Gweld heriau o safbwynt system gyfan, gan gydnabod a rhoi gwerth ar y manteision hirdymor y gallant eu cyflawni i bobl ac i lefydd<br>• Dyrannu adnoddau i weithredoedd ataliol sy'n debygol o gyfrannu at well canlyniadau a defnyddio adnoddau hyd yn oed pan allai hyn gyfyngu ar allu i fodloni rhywfaint o anghenion byrdymor<br>• Trefniadau penderfynu ac atebolrwydd yn cydnabod gwerth gweithredoedd ataliol ac yn derbyn gostyngiadau byrdymor mewn perfformiad ac adnoddau i geisio gwella canlyniadau a'r defnydd o adnoddau |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn gweithio mewn ffordd 'integredig' |
| --- |
| • Pawb yn deall eu cyfraniad at gyflawni'r weledigaeth ac amcanion llesiant<br>• Pawb yn deall yr hyn mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn ceisio cyfleoedd i weithio ar draws ffiniau'r sefydliad a'r sector cyhoeddus<br>• Pawb yn cydnabod bod cyflawni'r weledigaeth ac amcanion yn dibynnu ar gydweithio<br>• Diwylliant agored lle caiff gwybodaeth ei rhannu<br>• Dealltwriaeth dda o'r ffordd y mae amcanion llesiant a chamau i'w cyflawni'n effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.<br>• Unigolion yn rhagweithiol wrth weithio ar draws ffiniau'r sefydliad i gynyddu eu cyfraniad i'r eithaf ar draws y nodau llesiant ac i leihau effeithiau negyddol<br>• Y dulliau llywodraethu, strwythurau a phrosesau, yn ogystal ag ymddygiad, yn cefnogi hyn |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol?** |
| • Canolbwyntio ar le, cymuned a chanlyniadau, nid ffiniau'r sefydliad<br>• Deall amcanion y partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i sbarduno gweithgareddau ar y cyd<br>• Cydberthnasau cadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw<br>• Cydnabod a rhoi gwerth ar y cyfraniadau y gall yr holl bartneriaid eu gwneud<br>• Ceisio sefydlu prosesau a ffyrdd o weithio ar y cyd, lle bo'n briodol |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?** |
| • Deall pwy sydd angen cymryd rhan a pham<br>• Myfyrio ar ba mor dda y caiff yr anghenion a'r heriau sy'n wynebu'r bobl hynny eu deall ar hyn o bryd<br>• Gweithio'n gydweithredol â rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni<br>• Ystyried barn rhanddeiliaid yn wybodaeth hollbwysig i helpu i gyflawni gwell canlyniadau<br>• Sicrhau y caiff amrywiaeth lawn y rhanddeiliaid ei chynrychioli a bod modd iddynt gymryd rhan<br>• Cydberthnasau aeddfed a ffyddlon gyda'i randdeiliaid<br>• Caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw<br>• Sicrhau bod y rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad<br>• Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales